

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Cymraeg

Ebrill 2020 -
Mawrth 2021

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Ebrill 2020 - Mawrth 2021

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau amgen neu yn eich iaith eich hun

Tîm Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol


Gwasanaethau Corfforaethol

Neuadd y Sir

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint

CH7 6NG

Rhif ffôn:  01352 702131

E-bost:  corporatebusiness@flintshire.gov.uk

This publication is available in English

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020 - 2021

Crynodeb Gweithredol

1.	Cyflwyniad	5
2.	Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2020/21	6
3.	Sgiliau a hyfforddiant Y Gymraeg	10
4.	Cwynion	15
5.	Casgliad a Chamau Gweithredu ar gyfer y Dyfodol	18

Atodiadau

Atodiad 1	Offeryn Hunan Asesu Sgiliau'r Gymraeg
-----------	---------------------------------------

Crynodeb Gweithredol

Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar 30 Mawrth 2016 ac roedd yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r 146 Safon erbyn y dyddiad hwn. Daeth Safonau pellach i rym yn ddiweddarach gan olygu cyfanswm o 171 i gyd. Mae nifer o'r Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor yn adlewyrchu'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol a'n harfer presennol a'n hymrwymiad i'r Gymraeg.

Dyma'r pumed Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae'n dangos camau yr ydym wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r Safonau ac mae'n cynnwys data y mae'n ofynnol i ni eu cyhoeddi. Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol lle rydym wedi cyfrannu at yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig wrth barhau â'n gwaith o ddydd i ddydd.

Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cefnogi Menter Iaith Fflint a Wrecsam i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hyrwyddo a rhannu ein treftadaeth Gymreig dros y we. Roedd cynnal dathliadau dros y we yn golygu y gallai llawer mwy o bobl gymryd rhan, gan gynnwys y sector gofal cymdeithasol a thrigolion yn ein cartrefi preswyl a'n Cynlluniau Gofal Ychwanegol.

Am y cyfnod 2020/21 gwnaethom ymrwymiad i gynyddu nifer y gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt rywffaint (lefel 1) o sgiliau iaith Gymraeg, gan leihau yn y pen draw nifer y gweithwyr sy'n nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg. Er na wnaethom gyrraedd ein targed, bu gwelliant yn nifer y gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt ryw lefel o sgiliau iaith Gymraeg.

Mae nifer y gweithwyr sy'n dysgu Cymraeg wedi lleihau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu cynnydd bach yn ystod 2020 / 2021. Rydym yn ymchwilio i'r rhesymau dros y gostyngiad yn y niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant.

Dros y 12 mis nesaf byddwn yn gweithio i barhau i gynyddu nifer y gweithwyr sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg ac yn datblygu sgiliau gweithwyr sydd eisoes yn siarad rhywfaint o Gymraeg. Byddwn yn parhau i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg ymysg ein gweithwyr a bydd ymarfer cwsmer cudd ar ein gwefan yn helpu i nodi gwelliannau er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni Safonau'r Gymraeg.

Colin Everett
Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Billy Mullin
Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020-21

1.0 Cyflwyniad a Chefnidir

- 1.1 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth ymgymryd â'i fusnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg yn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn.
- 1.2 Nod y Safonau yw:
 - gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn y Gymraeg.
 - cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg.
 - ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg.
 - sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyff yn yr un sectorau.
- 1.3 Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiadau Cydymffurfio ar y Cyngor yn nodi'r 171 o Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy. Mae Hysbysiadau Cydymffurfio yn unigryw i bob sefydliad ac yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gymuned leol a'r capasiti sefydliadol i ddiwallu'r Safonau. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg y pwerau i ymchwilio ac i gymryd camau yn erbyn y sefydliadau hynny sy'n methu cydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys gosod cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfiaid.
- 1.4 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin fel y nodir yn Safonau 158, 164 a 170. Mae rhestr lawn o'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy ar gael [yma](#). Caiff yr adroddiad hwn ei dderbyn yn flynyddol hefyd gan Gabinet y Cyngor ar berfformiad mewn perthynas â'r Safonau a chaiff yr adroddiad ei gymeradwyo cyn ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Mae manylion sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a gellir eu gweld [yma](#).
- 1.5 Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r Cyngorydd Polisi Strategol yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Safonau'r Gymraeg. Mae ein Rhwydwaith Y Gymraeg yn darparu arweinyddiaeth strategol.
- 1.6 Gellir gwneud cwynion am fethu â chyrraedd Safonau'r Gymraeg drwy ddefnyddio ein [Gweithdrefn Gwynion](#).

2.0 Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2020/21

2.1 Mae'n ofynnol i ni adrodd ar ein trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Llundain Polisi
- Safonau Gweithredu

2.2 Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae mwy o fanylion ar gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar gael ar ein [gwefan](#). At hyn:

- Rydym yn cynnal hunanasesiad yn erbyn y Safonau i nodi lle mae angen i ni wella.
- Rydym yn monitro galwadau i linellau Cymraeg a Saesneg ein Canolfan Gyswilt, sy'n cael eu hadolygu yn ein cyfarfodydd Rhwydwaith chwarterol i fonitro unrhyw wahaniaethau mewn amseroedd ymateb i alwadau Cymraeg a Saesneg. Mae 4.5 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n siarad Cymraeg yn y Ganolfan Gyswilt allan o gyfanswm o 12.10 cyfwerth ag amser llawn.
- Yn ein Canolfannau Cysylltiadau (Siopau Un Stop) mae 12.7 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn y mae 1.8 cyfwerth ag amser llawn yn siarad Cymraeg
- Mae'r Ffurflen Gomisiynu ar gyfer contractau newydd yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer Swyddogion Comisiynu i gadarnhau a gynhaliwyd Aseiad o Effaith, sy'n eu cymhell i gynnwys gofynion Cymraeg yn y contract. Bydd hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn unrhyw contractau ar gyfer systemau TG newydd.
- Mae Rheolau ein Gweithdrefn Contractau yn ymgorffori Safonau'r Gymraeg, mae hyn yn atgoffa swyddogion comisiynu o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau. Mae cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau wedi eu cyhoeddi ar y fewnwyd.
- Mae Aura, cwmni sy'n eiddo i weithwyr, sy'n darparu gwasanaethau hamdden a llyfrgell yn y sir ar ein rhan, hefyd yn aelod o Rhwydwaith. Mae aelodau Rhwydwaith yn cynnal ymarferion Cwsmer Cudd Aura i fonitro eu cydymffurfiad â'r Safonau.
- Mae Gweithdrefn Gwynion y Cyngor wedi'i diwygio i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion y Safonau. Cyhoeddodd y Cyngor ei Bolisi Pryderon a Chwynion ar 1 Ebrill, 2021
<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Concerns-and-Complaints.aspx>

- Mae'r polisi newydd yn seiliedig ar ganllawiau enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Medi 2020. Ei nod yw gwneud prosesau ymdrin â chwynion yn debyg i'w gilydd - gan ddarparu safonau sylfaenol, iaith gyffredin a set o egwyddorion i danategu'r modd yr ymdrinnir â chwynion ymysg gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r polisi enghreifftiol, fel y cyngorwyd gan yr Ombwdsmon, yn gwbl gydnaws â Safonau'r Gymraeg. Mae gwefan y Cyngor yn cyngori pobl yn glir bod y polisi hefyd yn berthnasol i gwynion am y Gymraeg, ac mae unrhyw gwynion o'r fath yn cael eu copïo fel mater o drefn i'r Cyngorydd Polisi Strategol i'w monitro.
- Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn darparu hyfforddiant cwynion pwrpasol sydd wedi'i gynllunio i gefnogi a gwella'r broses o ymdrin â chwynion ledled gwasanaethau cyhoeddus, drwy ystyried arfer gorau o sawl sector o bob cwr o'r byd. Mae dros 70 o swyddogion allweddol wedi mynychu hyfforddiant yn 2020-21 ac mae mwy ar y gweill ar gyfer 2021-22.
- Mae model adrodd newydd wedi'i gyflwyno ers 1 Ebrill, 2021 a rhennir data perfformiad cwynion gyda Thîm y Prif Swyddogion, y Cabinet, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, a'r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd drwy'r flwyddyn. Adroddir am gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Rhwydwaith yn ogystal.

2.3 Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

- Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr o gyrrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru i ddatblygu templed Aseiad o Effaith rhanbarthol sy'n cynnwys y Gymraeg. Anfonwyd y templed hwn at Gomisiynydd y Gymraeg am ei sylwadau, sydd wedi'u hymgorffori yn y templed.
- Mae arweiniad ar ymgynghori ac ymchwil gan gynnwys yr iaith Gymraeg ar gael ar y fewnwyd. Mae hyn wedi cael ei hyrwyddo i weithwyr, yn ogystal â'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r Safonau Llunio Polisi.
- Rydym yn cynnig grantiau amrywiol, a chaiff rhai eu rheoli gan sefydliadau eraill ar ein rhan. Mae ffurflenni cais a meini prawf yn ddwyieithog ac yn cynnwys datganiad i ddweud na fydd oedi cyn ymateb i geisiadau a gyflwynir yn Gymraeg.
- Nodir isod nifer y ceisiadau am grant a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2020/21:

Grant	Nifer y ceisiadau a wnaed yn Gymraeg
Cist Gymunedol	0
Cronfa Waddol Gymunedol	0
Cronfa'r Degwm	0

- Mae manylion am sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi ar gael ar ein [gwefan](#).

2.4 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

Mae manylion llawn sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol ar gael ar ein [gwefan](#).

- Mabwysiadwyd Polisi Cymraeg yn y Gweithle yn 2017 ac fe'i cyhoeddir ar y fewnwyd. Dyma bolisi'r Cyngor ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Pwrpas y polisi yw:
 - hyrwyddo agweddau positif ac annog gweithwyr i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.
 - cynyddu nifer y gweithwyr Cymraeg eu hiaith a darparu cyfleoedd i weithwyr sydd eisoes yn rhugl yn y Gymraeg ac i'r rheiny sy'n dysgu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac wrth eu gwaith.
 - annog amgylchedd waith dwyieithog lle mae gan weithwyr y rhyddid a chefnogaeth i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae rheolwyr a gweithwyr wedi cael gwybod am y Safonau Gweithredol a hawliau gweithwyr.
- Mae gweithwyr wedi cael gwybod eu hawliau i dderbyn busnes wedi ei gyfeirio yn bersonol atynt drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r wybodaeth hon wedi ei chofnodi ar iTrent (system rheoli adnoddau dynol) a gan reolwyr. Mae wedi ei argraffu ar slipiau cyflog gweithwyr er mwyn sicrhau bod y neges yn cyrraedd yr holl weithwyr ac yn cael ei chynnwys yn y rhestr wirio Sefydlu. Cofnodir bod 35 o weithwyr yn gofyn am ohebiaeth fusnes yn Gymraeg.
- Gofynnir i weithwyr newydd ym mha iaith yr hoffent i'w contract cyflogi gael ei ddarparu.
- Mae dogfennaeth arfarnu wedi ei gyhoeddi ar y fewnwyd yn y Gymraeg. Mae gan weithwyr y dewis o gael cyfweliadau/cyfarfodydd disgyblu yn y Gymraeg.
- Caiff y polisiâu canlynol eu cyhoeddi yn y Gymraeg:
 - Polisi Rheoli Presenoldeb
 - Manteision Gweithio i Gyngor Sir y Fflint
 - Polisi Galluogrwydd
 - Polisi Diogelu Corfforaethol
 - Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
 - Polisi Urddas yn y Gwaith
 - Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb
 - Ffurflen gais Gweithio'n Hyblyg
 - Polisi Oriau Gweithio'n Hyblyg

- Polisi Maethu i Sir y Fflint
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle

2.5 Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

- Anogir gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy hyfforddiant a ddarperir gan y coleg lleol. Cefnogir gweithwyr i fynychu sesiynau hyfforddi o fewn amser gwaith. Mae sesiynau Panad a Sgwrs hefyd yn cael eu cynnal unwaith yr wythnos i gynorthwyo dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd diogel. Hwylusir y sesiynau hyn gan siaradwyr Cymraeg. Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd y sesiynau anffurfiol awr o hyd hyn dros y we.
- Mae Cysgliad (geiriadur, gwiriwr sillafu a gramadeg y Gymraeg) ar gael i weithwyr. Caiff hyn ei hyrwyddo yn y cyfarfod sefydlu a chaiff gweithwyr eu hatgoffa yn rheolaidd, drwy eitemau newyddion y gweithlu, y gallant wneud cais am Cysgliad.
- Mae adnoddau i gefnogi dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnwyd ar dudalen ddynodedig ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Caiff gweithgareddau a gynhelir yn y gymuned i gefnogi dysgwyr eu hyrwyddo i'r gweithlu.

2.6 Trefniadau Monitro

- Mae ein Rhwydwaith Iaith Gymraeg, Rhwydwaith, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob portffolio, Aura (llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden) a Theatr Clwyd ac yn cwrdd bob chwarter. Ymhlith yr eitemau sefydlog ar y rhaglen mae hyfforddiant y Gymraeg, proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr, hyrwyddo'r Gymraeg a chwynion.
- Mae galwadau i linellau ffôn Canolfan Gyswllt Cymru a Lloegr hefyd yn cael eu hadolygu yn y cyfarfodydd hyn i nodi unrhyw wahaniaeth mewn amseroedd aros.
- Rydym ran o'r ffordd drwy ymarfer yn gofyn i wasanaethau gwblhau hunanasesiad yn erbyn y Safonau fel y gallwn nodi a chanolbwyntio ar feysydd y mae angen i ni eu gwella.
- Rydym wedi comisiynu ymarfer cwsmer cudd i adolygu sampl o dudalennau, dogfennau ac e-ffurflenni ar ein gwefan gan mai dyma lle bu cwynion cyson am ddiffyg cydymffurfio â'r Safonau.

2.7 Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau allweddol i hyrwyddo'r Gymraeg gan gynnwys:

- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - 7 Rhagfyr 2020 - gwnaethom gynhyrchu ystod o fideos gyda'n gweithwyr Cymraeg eu hiaith, yn annog ein

cwsmeriaid i gysylltu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaethom bostio'r rhain ar ein safle Twitter yn ystod mis Rhagfyr 2020.

- Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg - 5 Chwefror 2021 - gwnaethom bostio negeseuon ar ein gwefan Twitter i hyrwyddo hyn a thrwy ein Tîm Busnes a hyrwyddodd ymysg busnesau lleol i'w hannog i gymryd rhan.
- Dydd Gŵyl Dewi – 1 Mawrth 2021 - gwnaethom gefnogi Menter Iaith i ddathlu'r diwrnod hwn drwy ddarparu cymorth ariannol a ariannodd fideos, gan gynnwys fideos o basio baner Cymru, adrodd hanes Dewi Sant, dymuno Dydd Gŵyl Dewi hapus i bobl ac adrodd anthem genedlaethol Cymru. Cafodd y rhain eu postio ar ein safle Twitter. Roedd cystadlaethau hefyd ar gyfer disgyblion ysgol ac ar gyfer aelodau'r gymuned.

3.0 Sgiliau a hyfforddiant Y Gymraeg

- 3.1 Mae sgiliau'r Gymraeg yn cael eu hunanasesu yn erbyn Fframwaith Hyfedredd y Gymraeg. (Atodiad 1). Nodir proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr yn ôl Portffolio yn Nhabl 1. Mae Tabl 2 yn dangos crynodeb o sgiliau'r Gymraeg ar draws y gweithlu. Mae'r tablau'n dangos bod nifer a chanran y gweithwyr sy'n nodi nad oes ganddyn nhw unrhyw sgiliau Cymraeg yn lleihau. Dywedodd 992 o weithwyr (35.45% o'r holl weithwyr) nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, o'i gymharu â 1,056 o weithwyr, (38.18% o'r holl weithwyr a gwblhaodd yr hunanasesiad) ym mis Mawrth 2020.
- 3.2 Mae nifer a chanran y gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg ar lefel 1 wedi cynyddu o 963 o weithwyr (34.82% o'r gweithlu) i 1,066 o weithwyr (38.1% o'r gweithlu) ym mis Mawrth 2021.
- 3.3 Bu rhywfaint o newidiadau ar lefelau eraill. Mae nifer y gweithwyr sy'n nodi bod eu sgiliau Cymraeg ar lefel 2 wedi cynyddu o 376 o weithwyr (13.59%) ym mis Mawrth 2020 i 387 o weithwyr (13.83%) ym mis Mawrth 2021. Bu cynnydd bach yn nifer a chanran y gweithwyr sy'n nodi bod eu sgiliau Cymraeg ar lefel 3 - yn codi o 94 o weithwyr (3.4% o'r gweithlu) i 102 o weithwyr (3.65% o'r gweithlu) ym mis Mawrth 2021. Bu cynnydd bach hefyd yn y gweithwyr sy'n nodi eu bod ar lefel 4.

Tabl 1: Proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ar 31 Mawrth 2021

Portffolio	Nifer staff	Lefel 0	%	Lefel 1	%	Lefel 2	%	Lefel 3	%	Lefel 4	%	Lefel 5	%	Dim cofnodion	%
Prif Weithredwyr	40	3	7.50%	19	47.50%	8	20.00%	5	12.50%	3	7.50%	2	5.00%	0	0.00%
Addysg ac Ieuenctid	253	57	22.53%	110	43.48%	35	13.83%	18	7.11%	17	6.72%	15	5.93%	1	0.40%
Llywodraethu	199	38	19.10%	99	49.75%	32	16.08%	8	4.02%	10	5.03%	9	4.52%	3	1.51%
Tai ac Asedau	321	123	38.32%	130	40.50%	35	10.90%	11	3.43%	13	4.05%	8	2.49%	1	0.31%
Pobl ac Adnoddau	181	42	23.20%	78	43.09%	35	19.34%	9	4.97%	11	6.08%	6	3.31%	0	0.00%
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	196	46	23.47%	83	42.35%	33	16.84%	8	4.08%	15	7.65%	8	4.08%	3	1.53%
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,076	406	37.73%	376	34.94%	162	15.06%	34	3.16%	30	2.79%	40	3.72%	28	2.60%
Gwasanaethau Stryd a Chludiant	532	277	52.07%	171	32.14%	47	8.83%	9	1.69%	9	1.69%	12	2.26%	7	1.32%
Cyfanswm	2,798	992	35.45%	1,066	38.10%	387	13.83%	102	3.65%	108	3.86%	100	3.57%	43	1.54%

Tabl 2: Crynodeb proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ar 31 Mawrth 2021

Portffolio	Cyfanswm y gweithwyr	Nifer y gweithwyr lle nad oes cofnod o sgiliau Cymraeg	Cyfanswm y gweithwyr gyda sgiliau Cymraeg (Lefel 1 Lefel 5)	% y gweithwyr gyda sgiliau Cymraeg	Nifer y gweithwyr heb unrhyw sgiliau Cymraeg	% gweithwyr heb sgiliau Cymraeg
Prif Weithredwyr	40	0	37	92.5%	3	7.50%
Addysg ac Ieuenctid	253	1	195	77.15%	57	22.53%
Llywodraethu	199	3	158	79.40%	38	19.10%
Tai ac Asedau	321	1	197	61.40%	123	38.32%
Pobl ac Adnoddau	181	0	139	76.80%	42	23.20%
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	196	3	147	75%	46	23.47%
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,076	28	642	59.66%	406	37.73%
Gwasanaethau Stryd a Chludiant	532	7	248	46.62%	277	52.07%
Cyfanswm	2,798	43	1,763	63.01%	992	35.45%

3.4 Mae gweithgareddau i ddatblygu gweithlu dwyieithog yn cynnwys:

- Annog gweithwyr i fynychu hyfforddiant y Gymraeg
- Cynnig sesiynau blasu'r Gymraeg drwy Goleg Cambria - sesiynau dwy awr o hyd am gyfnod o chwe wythnos. Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer gweithwyr nad oes ganddyn nhw unrhyw sgiliau Cymraeg.
- Cynnig sesiynau wythnosol Panad a Sgwrs i roi cyfle i ddysgwyr siarad ac ymarfer sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol a chefnogol.
- Cynnwys gofyniad am sgiliau "cwrteisï" Cymraeg o fewn canllawiau swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd.
- Gosod targedau i'n hunain i leihau nifer y gweithwyr sy'n nodi nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg
- Ailddatgan ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn ein proses recriwtio.
- Parhau i ganiatáu i weithwyr fynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg.

3.5 Darperir modiwl e-ddysgu sydd ar gael yng Nghronfa Ddysgu Academi Sir y Fflint o'r enw Ymwybyddiaeth Iaith fel modiwl gorfodol i'r holl weithwyr. Cwblhaodd 277 o weithwyr y modiwl hyfforddi hwn yn ystod 2020/21. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, 2019/20, gyda dim ond 151 o weithwyr yn cwblhau'r modiwl.

3.6 Darperir amrywiaeth o gyrsiau sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cwrs blasu, lefel mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Rhugl. Mae yna hefyd gyrsiau ag amrywiaeth o gyfnodau yn cael eu cynnig, rhwng 6 wythnos a 30 wythnos, gyda'r opsiwn ar ôl cwblhau pob un i barhau i lefel uwch os oes angen. Mae llawer o'r gweithwyr a gwblhaodd y cwrs blasu 6 wythnos wedi symud ymlaen i astudio'r cwrs lefel mynediad. Cynhelir y cyrsiau hyn drwy Goleg Cambria ac fe'u cynnigir ar DysguCymraeg.cymru.

Fel arfer mae yna amrywiaeth o leoliadau yn cael eu cynnig, ond oherwydd pandemig Covid 19, mae cyrsiau wedi'u cynnal ar-lein, fel arfer ar Google Meet.

Tabl 3: Nifer y gweithwyr sydd yn mynychu hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg

Lefel	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Sgiliau leithyddol Sylfaenol	62	48	1	15	11
Mynediad	34	50	34	22	28
Sylfaenol	20	7	12	6	10
Canolradd	12	23	3	2	1
Uwch	2	1	9	7	6
Rhugl	3	10	5	5	3
Cyfanswm	133	139	64	57	59

3.7 Fel rhan o Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y canlynol:

i) nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

ii) a gynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs – y nifer a % y gweithwyr a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

3.8 Mae yna wybodaeth ar dudalennau mewnwyd y Cyngor i ddweud wrth weithwyr os ydynt yn dymuno gwneud unrhyw rai o'r cyrsiau yn Gymraeg i gysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Mae gan y Cyngor gytundeb anffurfiol gyda Chyngor Gwynedd fod gweithwyr yn mynychu eu cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Oherwydd y pandemig, cafodd yr holl hyfforddiant ei ganslo. Rhewodd y broses recriwtio hefyd. Ar hyn o bryd, darperir yr holl waith Rheoli Perfformiad, hyfforddiant recriwtio a disgyblu gan gynghorwyr AD yn eu portffolio eu hunain.

Mae nifer y gweithwyr sydd yn mynychu cyrsiau penodol yn y Gymraeg wedi ei nodi isod:

Tabl 4: Proffil hyfforddiant a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg

Math o Hyfforddiant	Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg	Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg	Canran a fynychodd y fersiwn Gymraeg
lechyd a Diogelwch	Cyfanswm: 115 Sefydliad Diogelwch ac lechyd Galwedigaethol ar gyfer ysgolion - 16 E-ddysgu – Cyflwyniad i lechyd a Diogelwch 99	Cyfanswm: 115	Cyfanswm: 0

3.9 Mae proses i asesu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd mewn grym. Mae dull o gofnodi'r nifer o swyddi sydd wedi eu hasesu fel dymunol neu hanfodol wedi cael ei ddatblygu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgan y nifer o swyddi newydd a gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle:

- i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- ii) roedd angen dysgu Cymraeg yn dilyn penodi
- iii) roedd y Gymraeg yn ddymunol
- iv) nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

Mae'r data ar gyfer 2020/2021 wedi eu nodi isod.

Categori	Nifer y swyddi wedi'u categorio	Canran y swyddi wedi'u categorio
Hanfodol	3	5.00%
Dymunol	9	15.00%
Angen dysgu Cymraeg	2	3.3%
Dim angen unrhyw sgiliau Cymraeg	46	76.67%

O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol

Categori	Nifer				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
i) Y Gymraeg yn hanfodol	17	8	14	2	3
ii) Angen dysgu Cymraeg yn dilyn penodi	0	0	0	0	9
iii) Y Gymraeg yn ddymunol	9	40	42	12	2
iv) Sgiliau'n ymwneud â'r Gymraeg ddim yn hanfodol	277	185	207	66	46

4.0 Cwynion

4.1 Yn ystod 2020/21 cawsom ddwy gŵyn. Yn ogystal, gwnaed tair cwyn yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg.

4.2 Mae dadansoddiad o'r cwynion yn ystod 2020/21 wedi'i nodi isod:

Safon	Cwynion a gafwyd yn uniongyrchol	Cwynion a godwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg	Cyfanswm y cwynion
Gweithredol			0
Darparu Gwasanaeth	2	3	5
Creu polisi			0
Dyrchafu			0

Mae manylion y cwynion hyn wedi'u nodi yn y tabl canlynol

Darpariaeth Gwasanaeth Cwynion	Manylion	Canlyniad a'r camau a gymerwyd
Treth y Cyngor	Nid oedd y ffurflen Treth Gyngor ar gael yn Gymraeg ar y wefan ac ni dderbyniodd yr achwynydd alwad yn ôl wrth gysylltu â'r rhif ffôn Cymraeg.	Gwiriwyd y wefan, roedd ffurflenni ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac roedd tudalennau'r wefan – Cymraeg a Saesneg, yn gweithio'n iawn. Ymddiheurwyd wrth y cwsmer gan nad oedd gweithiwr wedi pasio'r neges ymlaen.
Negeseuon Twitter yn cael eu hanfon eto drwy Gov Delivery	Negeseuon Twitter yn arddangos yn anghywir ar ddyfais cwsmer – camsillafu ac nid oedd y Gymraeg yn gwneud synnwyr	Roedd y negeseuon Twitter a gyhoeddwyd ar ein gwefan Twitter ac ar Gov Delivery yn gywir ac nid yr un peth â'r rhai a ymddangosodd ar ddyfais y cwsmer. Gwiriwyd eu bod yn ymddangos yn gywir ar ddyfeisiau personol eraill. Nid oedd unrhyw broblemau. Mae'n debyg mai dyfais y cwsmer oedd y broblem am nad oeddem yn gallu gweld pam na ddangoswyd eu bod wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan Twitter a thrwy Gov Delivery.

Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i Gomisiynydd Y Gymraeg		
Darpariaeth Gwasanaeth Cwynion	Manylion	Canlyniad a'r camau a gymerwyd
Cyfathrebu Corfforaethol	Negeseuon Twitter wedi'u cyhoeddi'n Saesneg ar safle Twitter Cymraeg. Cyhoeddwyd y	Ymchwiliwyd i hyn gan Gomisiynydd y Gymraeg, a benderfynodd beidio â bwrw ymlaen ag

	<p>negeseuon Twitter yn Saesneg oherwydd y teimlad oedd bod y mater yn un brys ac roedd angen postio negeseuon Llywodraeth Cymru ynghylch ailagor busnesau yn ystod y pandemig cyn gynted â phosibl. Cafodd y fersiwn Gymraeg ei phostio cyn gynted ag y cafodd ei dychwelyd gan y Tîm Cyfieithu.</p>	<p>ymchwiliad llawn o ystyried y cyd-destun eithriadol (pandemig cenedlaethol) pan ddigwyddodd y camgymeriad.</p> <p>Mae'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn gyfarwydd â gofynion Safonau'r Gymraeg ac yn cydymffurfio â'r gofynion.</p>
Cyfathrebu Corfforaethol	Saesneg wedi'i gyhoeddi ar fersiwn Gymraeg newyddlen Gov Delivery.	
Cronfa Bensiynau Clwyd	<p>Y Gymraeg yn anghywir ar y wefan a Saesneg ar rai o'r tudalennau Cymraeg.</p> <p>Ni chafodd yr achwynydd alwad yn ôl wrth gysylltu â'r llinell Gymraeg.</p>	<p>Mae hyn yn cael ei ymchwilio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar hyn o bryd.</p> <p>Mae unigolyn newydd wedi'i benodi ac mae'n adolygu ac yn diweddarau gwefan Cronfa Bensiwn Clwyd i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu cyhoeddi'n gyfartal. Bydd deiliad y swydd yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd y wefan.</p> <p>Mae'r holl weithwyr yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod aelodau sy'n siarad Cymraeg o Gronfa Bensiwn Clwyd yn cael gwasanaeth dwyieithog. Yn anffodus y tro hwn bu'n rhaid i'r swyddog a oedd yn gyfrifol am yr alwad adael y gwaith ar frys ac ni ddilynwyd y gweithdrefnau.</p>

4.3 Gwnaethom adrodd yn flaenorol fod cwyn ynghylch contractwr yn destun ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd erbyn hyn wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi torri Safonau'r Gymraeg gan fod y contractwr wedi methu â chydymffurfio. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi hysbysiad yn gofyn i ni gymryd camau gweithredu penodol, gan gynnwys:

- Darparu hyfforddiant i'r contractwr
- Sicrhau bod y contractwr yn diwygio'i wefan fel bod y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg
- Sicrhau bod y contractwr yn ymateb i ohebiaeth Cymraeg gan gwsmeriaid yn Gymraeg

Cwblhawyd y camau hyn yn ystod 2020/21 ac mae ymarferion cwsmer cudd bellach yn cael eu cynnal ar hap gyda'r contractwr dan sylw.

5.0 Casgliad a Chamau Gweithredu ar gyfer y Dyfodol

5.1 Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae nifer y gweithwyr sy'n dweud nad ydynt yn meddu ar unrhyw sgiliau Cymraeg wedi lleihau. Er na wnaethom gyrraedd ein targed, rydym yn hyderus y byddwn yn parhau i wneud cynnydd. Rydym yn bryderus am y lleihad yn nifer y gweithwyr sy'n dysgu Cymraeg. Rydym yn adolygu'r rhesymau pam nad yw gweithwyr yn ymgymryd â'r hyfforddiant a pham nad yw gweithwyr yn parhau â'r cwrs hyfforddi.

5.2 Rydym wedi parhau i hyrwyddo'r Gymraeg. Cefnogwyd un o'n tenantiaid yn un o'n cynlluniau Gofal Ychwanegol i gyfrannu at fideo, gan ganu hwiangerdd Gymraeg "Gee Ceffyl Bach" i'r grŵp Facebook CÔR-ONA. Canodd nifer o denantiaid yr Anthem Genedlaethol fel rhan o grŵp Facebook "Sing For Wales". Drwy fentrau'r Siarter Iaith a'r Campws Cymraeg rydym yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn gymdeithasol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo digwyddiadau i ddathlu diwylliant Cymru.

5.3 Wrth symud ymlaen yn ystod 2021/22 byddwn yn parhau i atgoffa a chefnogi gweithwyr a rheolwyr am eu cyfrifoldebau i gyflawni Safonau'r Gymraeg a chwblhau ein hunanasesiad yn erbyn y Safonau. Rydym hefyd wedi comisiynu adolygiad Cwsmer Cudd o'n gwefan i nodi meysydd lle mae angen i ni wella er mwyn bodloni'r Safonau.

5.4 Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau bod 100% o weithwyr yn adolygu ac yn cwblhau archwiliad sgiliau'r Gymraeg erbyn mis Mawrth 2022;
- cynyddu nifer y gweithwyr sy'n cwblhau'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith erbyn mis Mawrth 2022;
- lleihau nifer y gweithwyr sy'n nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg gan weithio tuag at y targed o 5% o weithwyr heb sgiliau Cymraeg erbyn mis Mawrth 2023;
- cymryd rhan mewn mentrau i godi proffil y Gymraeg yn y gweithle a'r gymuned.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

Rhif ffôn: 📞 01352 702131

E-bost: 📧 corporatebusiness@flintshire.gov.uk

Atodiad 1 OFFERYN HUNAN ASESU SGILIAU'R GYMRAEG

	GWRANDO / SIARAD	DARLLEN / DEALL	YSGRIFENNU
LEFEL 0	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu sylweddol
LEFEL 1	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau, ac ati. • Cyfarch a deall cyfarchiad. • Defnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol a ddefnyddir bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi ac ati • Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Ga i siarad â...' • Nodi ceisiadau syml a dilyn cwestiynau / ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd / rhagweladwy sy'n ymwneud â maes fy swydd fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati.
LEFEL 2	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall prif bwyntiau sgysiau Cymraeg yn y gwaith • Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol • Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml • Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyhyd â bod y pwnc yn gyfarwydd • Deall cyfarwyddiadau pan gaiff iaith syml ei defnyddio 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a phrif bwyntiau gwybodaeth anarferol ar faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â maes fy swydd fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon syml byr ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n gysylltiedig â'm profiadau personol neu maes fy swydd fy hun
LEFEL 3	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall llawer o'r hyn a ddywedir mewn swyddfa, cyfarfod ac ati. • Cynnal sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â gwaith, ond efallai y bydd angen dychwelyd i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol • Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol • Cymryd a throsglwyddo'r mwyafrif o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw • Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n ymwneud â'r swydd 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sganio testunau am wybodaeth berthnasol • Deall tipyn o ohebiaeth arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â'r swydd, llenyddiaeth ffeithiol, ac ati pan ddefnyddir iaith safonol. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio • Gwneud nodiadau eithaf cywir tra bydd rhywun yn siarad
LEFEL 4	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal sgwrs estynedig am dipyn o bopeth yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad yn gymharol rhugl gan allu mynegi fy hun yn eithaf eang ond efallai y byddai angen troi at y Saesneg i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol • Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn maes fy swydd fy hun • Dadlau o blaid/yn erbyn achos 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym os nad oes geirfa anarferol yn cael ei defnyddio ac os nad yw'r wybodaeth yn benodol gymhleth neu dechnegol 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Paratoi llythyrau ffurfiol o lawer o fathau cyfarwydd fel ymholiadau, cwynion a cheisiadau • Gwneud nodiadau eithaf cywir mewn cyfarfodydd neu gyfarwyddiadau syml • Ysgrifennu adroddiad / dogfen yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio
LEFEL 5	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynghori / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif sy'n gysylltiedig â fy mhrofiadau fy hun • Rhoi cyflwyniad / arddangosiad • Delio'n hyderus gyda chwestiynau anghyfeillgar neu anrhagweladwy 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall syniadau a gwybodaeth gymhleth mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau. adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau ac ati. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n Gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc • Ysgrifennu nodiadau llawn a chywir o gyfarfodydd tra'n parhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddyn nhw.

	<ul style="list-style-type: none">• Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol• Cynnal cyfweiliadau â'r cyfryngau		<ul style="list-style-type: none">• Ysgrifennu adroddiadau/ dogfennau yn hyderus, ond efallai y bydd angen eu gwirio am fân wallau o ran sillafu a gramadeg
--	--	--	---

